

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

5/2/2015

Presennol: Y Maer, Ivora Jones, Y Dirprwy Faer, Eifion Roberts, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Islwyn Pritchard Jones, Alun Price, Edith Roberts, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: Islwyn Pritchard-Jones, Dorothe Evans

1. Estynnodd Y Maer groeso cynnes i bawb ac yn arbennig i gynrychiolwyr o Rheilffordd Llyn Tegid.
2. Rhoddodd Mr Julien Birley gyflwyniad ar y cynllun arfaethedig i ymestyn y rheilffordd at Heol Aran. Teimlai y byddai'r datblygiad yn dod a budd economaidd a chyfleoedd am waith i'r dre gan y byddai'r datblygiad yn denu miloedd o dwristiaid yn flynyddol. Cafodd y Cyngorwyr gyfle i'w holi ymhellach am y cynlluniau a chytunwyd i gefnogi mewn egwyddor.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 8fed Ionawr 2015.
5. Yn codi o gofnodion 8fed Ionawr (7.i) adroddodd y Clerc iddi dderbyn yn ddiweddar neges oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn egluro'r oedi yn y gwaith o uwchraddio cartrefi yng Nghysgod y Coleg ac yn datgan y trefnwyd cyfarfod i egluro'r sefyllfa i'r tenantiaid. Derbyniwyd hefyd ymateb i gyfarchion y Cyngor (7ii) i Faer a thrigolion Milo.
6. Goleuadau Symudol: derbyniwyd ateb i ymholiadau'r Cyngor ac ar ôl trafodaeth cytunwyd i anfon at **Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru** i ofyn am asesiad o oryrru ar yr A494 yn ardal yr hen Ysgol Ramadeg.
7. **Materion y Cyngorydd Sir:** Adroddodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan ei fod yn parhau i dderbyn gohebiaeth am yr angen am loches bws a'i fod yn parhau i geisio cael yr awdurdodau i gytuno ar safle addas. Dywedodd fod mater y stondinau beic mewn llaw a'i fod wedi sicrhau cytundeb mewn egwyddor i agor Llwybr y Sgotwyr ar lan Afon Tryweryn ar gyfer y cyhoedd. Cytunwyd i gynnal Cyfarfod Cyhoeddus i drafod problem baw cŵn yn Y Bala. Adroddodd fod y llwybr at Lanycil yn cael ei glirio ar hyn o bryd. Mae Cyngor Gwynedd yn trafod ariannu'r gost o drwsio'r wal nesaf at Domen Y Bala. Mae wedi derbyn addewid gan Reolwr Ardal Banc y Nat West y bydd yr adeilad yn cael ei gadael yn gymen ac yn addas ar gyfer Stryd Fawr ar ôl i'r Banc gau. Cytunodd y Cyngor i anfon i gefnogi'r dymuniad hwn (hefyd i ofyn iddynt am glirio'r llanast o gefn yr adeilad).

8. Materion lleol y Cyngorwyr Tref:

Arwyddwyd.....(Maer).....(Clerc)1

Roedd pryder fod datrys problemau parcio trwy osod llinellau melyn dwbl yn heol Tegid wedi arwain at broblem oryrru ar hyd Rowen ac wrth fynd heibio'r ysgol. Cytunodd Cynrychiolwyr y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Bro Tegid i godi'r mater yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Mae parcio wrth gyffordd Heol Tegid a'r Stryd Fawr hefyd yn achosi problemau a chytunwyd i ofyn am bresenoldeb y Warden Traffig er mwyn ceisio datrys y broblem.

9. Materion Cynllunio a Thrwyddedu

- i. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais am drwydded i werthu alcohol yn 101 Y Stryd Fawr.
- ii. Cymeradwywyd Cais NO5/53/LB67R sef ailosod dwy ffenestr to cadwraethol, ychwanegu fentiau yn soffid y to ac yn y wal (drychiad gogledd ddwyrain), a gosod slabiau llechen yn fewnol yn Adeiladau'r Aran 88- 96 Y Stryd Fawr.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i drosi cyn swyddfa i uned gwyliau yn Swyddfa'r Post, 50 Y Stryd Fawr.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i adeiladu garej yn 23 Cae Gadlas
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i estyniad a ffenestri to ac i godi estyniad cefn a ffenestri to yn y Garreg Wen, Heol Arennig.

11. Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:
 - a. Y Cyfnod: Cyfarchion y Nadolig (Cronfa'r Maer);
 - b. Baner ar gyfer Y Domen
 - c. Tâl aelodaeth Un Llais Cymru
- iii. Cytunwyd i dalu cyflog y Clerc am fis Ionawr 2015

12. Gohebiaeth:

Cyngor Gwynedd Y Domen: Derbyniwyd neges fod y cais i wneud y gwaith yn mynd i'r Cyngor llawn yn fuan.

Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am hyfforddiant Gwneud Ceisiadau Grant. Cytunodd y Clerc i fynychu ar ran y Cyngor ddigwyddiad gyda SLCC ac UN Llais Cymru yn Llandrindod ar 14 Mai 2015

Mae'r Cynrychiolwyr wedi derbyn gwybodaeth am y Pwyllgor Ardal yn Nolgellau ar 11/2/15

Heddlu: Derbyniwyd gwybodaeth am achosion diweddar o ladrata yn y dref gyda chais i bawb fod yn wylidwrus ac i roi gwybod i'r Heddlu ar unwaith os oes pryderon.

Erail: Derbyniwyd gwybodaeth yn ymwneud a mesur rhandiroedd

13. **Asedau'r Cyngor** - derbynir adroddiad y mis nesaf. Adroddodd Alun Price ei fod yn parhau mewn trafodaethau am gynnwys yr hysbysfwrdd ar y Domen. Derbyniwyd y faner newydd ar gyfer Y Domen.

14. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad gan Alun Price a soniodd fod y Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd yn parhau heb newid ar hyn o bryd gan fod Cyngor Gwynedd yn ymchwilio i fodelau o ddatganoli gwasanaethau i fwy o gymunedau. Cytunwyd i arwyddo'r Cytundeb am flwyddyn arall. Mae ystyriaeth yn cael ei roi i geisio difa mwsogl o Lwybr y Cei yn Llanuwchllyn .

Mae prosiect yr Henblas yn gyrru ymlaen yn llwyddiannus, er bod un swyddfa wag ar gael i'w rhentu. Mae trafodaeth ar hyn o bryd gyda Chyngor Gwynedd parthed a Phrydles yr adeilad, ac mae ceisiadau yn cael eu gwneud am grantiau i uwchraddio'r trydydd llawr. Mae galw cyson gan y cyhoedd i ddefnyddio'r ystafelloedd cyfarfod.

Mae'r Cytundeb gyda Pharc Cenedlaethol Eryri (maes parcio a thoiledau Llangywer a Chae Garnedd wrth Llyn Celyn) yn cael eu trafod ar hyn o bryd.

15. Eiddo Cyngor Tref Y Bala yn yr Henblas :

Cytunwyd i dalu am

1. Fframio 6 hen lun i'w harddangos o archifau Cyngor Tref Y Bala
2. Gosod hysbysfwrdd i'r Cyngor tu allan yr adeilad

16. Cafwyd trafodaeth agoriadol ar Bapur gwyn y Llywodraeth: *Diwygio Llywodraeth leol: Grym i Bobl Leol*. Cytunwyd i ofyn i Bartneriaeth Penllyn drefnu sesiwn ar y cyd i Gynghorwyr Cymuned a Thref Penllyn er mwyn allu deall goblygiadau'r cynigion ac ymateb iddynt.

Amser gorffen: 9.45pm